OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 154 (Cy. 68)

# COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, CYMRU

## Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae Rheoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sef swydd a sefydlwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y caiff y Prif Weinidog estyn cyfnod swydd y Comisiynydd, sydd yng nghyfnod cyntaf y penodiad, am gyfnod o hyd at ddwy flynedd. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch pa un ai i estyn cyfnod swydd y Comisiynydd, rhaid i'r Prif Weinidog gymryd i ystyriaeth farn pobl hŷn. Os yw'r Prif Weinidog yn estyn cyfnod swydd y Comisiynydd, ni chaniateir i'r Comisiynydd gael ei ailbenodi am ail gyfnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 154 (Cy. 68)

# COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, CYMRU

## Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016

*Gwnaed* *8 Chwefror 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *11 Chwefror 2016*

*Yn dod i rym* *4 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 28(2) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007**

**2.** Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**3.** Yn rheoliad 3 (penodi'r Comisiynydd)—

(a) ym mharagraff (5) yn lle "reoliad 4" rhodder "reoliadau 4 a 4A"; a

(b) ym mharagraff (6) yn lle'r geiriau agoriadol "Caniateir i berson" rhodder "Yn

(**1**) 2006 p. 30. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru. Yn unol â pharagraff 35(4) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, roedd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i ddiddymiad yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

(**2**) O.S. 2007/396 (Cy. 42).

ddarostyngedig i reoliad 4A, caniateir i berson”.

**4.** Ar ôl rheoliad 4, mewnosoder—

“**4A.**—(1) Caiff y Prif Weinidog estyn cyfnod swydd Comisiynydd, sydd yng nghyfnod cyntaf y penodiad, am gyfnod o ddwy flynedd ar y mwyaf.

(2) Dim ond ar ôl cymryd i ystyriaeth farn pobl hŷn yng Nghymru neu’r personau hynny (fel yr ymddengys i’r Prif Weinidog) sy’n cynrychioli barn pobl hŷn yng Nghymru o ran yr estyniad arfaethedig y caniateir i’r estyniad i gyfnod swydd y Comisiynydd o dan baragraff (1) gael ei wneud.

(3) Mae cyfnod yr estyniad o dan baragraff (1) yn cychwyn ar y dyddiad y daw cyfnod pedair blynedd y Comisiynydd i ben.

(4) Yn dilyn yr estyniad i gyfnod swydd o dan baragraff (1), ni chaniateir i’r Comisiynydd gael ei benodi am ail gyfnod.”.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
8 Chwefror 2016